

Briff 7 Munud

Adolygiad Ymarfer Plant

CPR 04/2019

Gwelliannau Ymarfer o ddysgu cynnar

Mae asesiadau risg Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (RhYRGC) bellach yn cael eu rhannu yn sgil pryderon am bobl ifanc sy'n hysbys i Wasanaethau Plant ac Iechyd Meddwl (CAMHS) a Gwasanaethau Plant. Mae'r Gwasanaethau i Blant wedi newid eu ffurflenni atgyfeirio i ganolbwyntio mwy ar brofiad byw'r plentyn.

Nid yw'r cartref gofal therapiwtig preswyl bellach yn derbyn lleoliad person ifanc heb y wybodaeth lawn am amgylchiadau'r person ifanc nac yn agos at ei ben-blwydd yn 16 oed, oherwydd trosglwyddiad addysg. Pan fydd plentyn bellach yn cael ei drosglwyddo i leoliad y tu allan i'r sir, mae'r Gwasanaethau Plant wedi cyflwyno panel 'Dyfodol Disgleiriach'.

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar 'Ganllawiau Pontio a Throsglwyddo' sy'n cynnwys Pasbort person ifanc'. Bydd hyn yn caniatáu i'r person ifanc bontio rhwng asiantaethau neu i leoliad newydd heb fod angen ail-adrodd ei stori'n gyson.

Cefndir

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol

Testun yr adolygiad oedd person ifanc a fu farw ar ôl cael ei chanfod wedi crogi yn ystafell wely ei lleoliad preswyl dri mis ar ôl iddi gael ei lleoli y tu allan i'r sir fel plentyn sy'n derbyn gofal. Bydd y briff 7 munud hwn yn crynhoi'r dysgu allweddol o'r adolygiad hwn.

Cyd-destun

Roedd y person ifanc yn 16 oed ar adeg ei farwolaeth. Tua thri mis ynghynt roeddent wedi eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol ac i gartref gofal therapiwtig preswyl y tu allan i'r sir.

Roedd y person ifanc hwn yn ei chael hi'n anodd rheoli rheoleiddio emosynol o oedran ifanc ac roedd yn derbyn cymorth proffesiynol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentynod a thrawma datblygiadol a brofwyd yn yr uned deuluol

Gall profiadau niweidiol yn ystod plentynod, neu PPNau fod yn ddigwyddiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentynod; megis profi neu fod yn dyst i drais, camdriniaeth neu esgeulustod yn y cartref neu agweddau ar amgylchedd y plentyn a all danseilio eu hymdeimlad o ddiogelwch, sefydlogrwydd a bondio.

Roedd gan y person ifanc hanes o anhawster i reoli ei reoleiddio emosynol, ac roeddent yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl lleol ac yn rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn i'w cefnogi. Yn ystod y cyfnod a adolygwyd, gwelwyd tystiolaeth y byddai'r person ifanc yn hunan-niweidio'n fwriadol yn rheolaidd ac y byddai'n gwneud datganiadau mynych am fod eisiau dod â'i fywyd ei hun i ben.

Drwy gydol yr adolygiad hwn daeth yn amlwg bod cartref teuluol y person ifanc yn amgylchedd anodd, a bod y person ifanc wedi profi emosynau cymhleth a heriol o ran cyswllt â'r teulu ar ôl symud i'r cartref preswyl.

Argymhellion - parhad

Llais y Plentyn

Pob asiantaeth i sicrhau bod plentyn, person ifanc a'u teuluoedd yn cael gwrandawriad ac yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses cynllunio gofal.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod

Pob asiantaeth i ddeall yn llawn berthnasedd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a Dulliau Gweithredu Seiliedig ar Drawma.

Argymhellion ar gyfer Gwella Systemau ac Ymarfer

Gwnaeth yr adolygiad argymhellion yn ymwneud â'r prif feysydd o ddysgu sefydliadol. Nodir y rhain fel a ganlyn:

Cronoleg Gweithio Amlasiantaethol

Pan fo lleoliad yn cael ei ganfod ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, dylai cronoleg amlasiantaethol a rennir fod ar waith, sy'n cael ei rhannu â lleoliadau arfaethedig i sicrhau bod lleoliad priodol yn cael ei wneud a all ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Trosglwyddo gwasanaethau a threfniadau gofal

Dylid hwylyso'r gwaith o gynllunio a rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn helpu i drosglwyddo plentyn neu berson ifanc i leoliad y tu allan i'r sir. Ni ddylid amharu ar wasanaethau presennol ac ni ddylai unrhyw gyfrifoldeb gael ei gyflawni hyd nes y bydd pontio di-dor wedi digwydd.

Dysgu Sefydliadol

Nodwyd y meysydd allweddol canlynol o ddysgu sefydliadol yn yr adolygiad:

- Gwaith amlasiantaeth
- Rhannu Gwybodaeth
- Pontio rhwng Ardaloedd Awdurdodau Lleol
- Ansawdd a Chywirdeb gwybodaeth
- Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r teulu
- Llais y plentyn neu'r person ifanc
- Dim rheidrwydd ar blentyn neu berson ifanc i ail-adrodd ei stori